| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **YCyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiad Blynyddol Y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>**Adrodd ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2009/10** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Gwen Carrington, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd Dai R Jones** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Am y tro cyntaf eleni, mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

## 2. Y Drefn

2.1 Mae'r drefn newydd yn cymryd lle'r broses archwilio Adolygiad ar y Cyd. Nid proses o greu 'adroddiad' yn unig yw'r drefn, deilliant y broses bydd cyhoeddi adroddiad. Mae 4 cam i'r broses, sef:

**1. Yr adroddiad Trosolwg**
Dogfen gyhoeddus sy'n crynhoi barn yr Awdurdod ar effeithlonrwydd y gwasanaeth a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

**2. Dadansoddiad o effeithlonrwydd Gwasanaethau**
Proses manwl o hunan asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth, cytuno ar ddyfarniad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Bydd angen profi fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio ein hasesiad. Nid yw'n ddogfen gyhoeddus ond rhaid bod ar gael i bawb sydd eisiau ei weld.

**3. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**4. Cynllun busnes**
Ar gyfer cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.